Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol – y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru

9 Rhagfyr 2020

Annwyl Tracey

**Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**

Diolch i chi am eich llythyr cynhwysfawr dyddiedig 12 Tachwedd 2020 ynghylch y setliad a gyrhaeddwyd ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y mater hwn wedi dod i ben yn awr.

Rydym yn croesawu'r newidiadau sylweddol a wnaed i weithdrefnau gweithio mewnol Llywodraeth Cymru. Cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol ymgorffori'r ystod eang o wersi y mae Llywodraeth Cymru wedi'u dysgu o ganlyniad i achos Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio i'w gweithdrefnau gweithio mewnol. Wrth wneud hynny, rydym yn dymuno ailadrodd nifer o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor a oedd yn ein rhagflaenu, sef:

- pe byddai Llywodraeth Cymru yn sefydlu cyrff hyd braich yn y dyfodol, rhaid i swyddogaethau a rolau Aelodau Bwrdd y cyrff hyn gael eu diffinio'n glir a rhaid i bawb dan sylw eu deall. Sicrhau bod gan Aelodau'r Bwrdd yr arbenigedd a'r gallu priodol i gyflawni eu dyletswyddau a'u bod yn cael hyfforddiant cynefino digonol a phriodol; a
- rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi adolygu a diwygio ei gweithdrefnau gweithio mewnol ond rhaid iddi barhau i ddangos bod y newidiadau hyn yn sicrhau bod y trefniadau llywodraethu, goruchwylio ac atebolrwydd yn gadarn, wedi'u diffinio'n glir a bod pob parti dan sylw yn eu deall, beth bynnag yw'r gweithgareddau y mae Llywodraeth Cymru yn

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

ymgymryd â nhw. Byddwn yn argymell yn ein Hadroddiad Gwaddol bod ein Pwyllgor olynol yn parhau i graffu ar Lywodraeth Cymru o ran ei harferion a'i gweithdrefnau, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â datblygu a rheoli contractau gyda thrydydd partïon, i sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd yn ôl yr angen.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.